**EITEM AR YR AGENDA: 12**

**PWYLLGOR ARCHWILIO**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**1 Mehefin 2015**

**CRYNODEB O WEITHGARWCH ARCHWILIO MEWNOL 2014/15 AC ASESIAD O ANGHENION A CHYNLLUN ARCHWILIO DRAFFT 2015/16**

**Adroddiad gan Mike Halstead, Pennaeth Gwasanaethau Archwilio a Chaffael**

## Diben yr Adroddiad

1 Derbyn crynodeb o waith Archwilio Mewnol 2014/15.

2 Cymeradwyo'r Asesiad o Anghenion Archwilio a'r Cynllun Archwilio Mewnol Drafft 2015/16.

## Gwybodaeth

3 Dan delerau'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005, mae gan Awdurdodau Tân ac Achub gyfrifoldeb statudol i gynnal "system ddigonol ac effeithiol o archwilio mewnol".

4 Mae'r swyddogaeth Archwilio Mewnol yn cael ei chynnal ar ran yr Awdurdod Tân ac Achub gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, a swyddogaeth arfarnu annibynnol ydyw, ar gyfer adolygu gweithgarwch yr Awdurdod Tân ac Achub fel gwasanaeth, a hynny ar gyfer pob lefel o reolaeth.

5 Mae Rheoliadau Ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (ATAGC) yn nodi y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno yn enw ATAGC mewn perthynas â'r cynllun archwilio am y flwyddyn ariannol sydd i ddod, ynghyd ag adroddiad ynghylch perfformiad yn erbyn cynllun gwreiddiol y flwyddyn ariannol flaenorol.

6 Y Prif Swyddog Tân a darparwyr yr archwiliad mewnol sy'n gyfrifol am bennu cynnwys y cynllun archwilio. Dylid llunio'r cynllun mewn ymgynghoriad â'r Archwilydd Allanol.

7 Ar hyn o bryd, KPMG yw archwilydd allanol yr Awdurdod Tân ac Achub.

8 Gellir rhannu'r gwaith archwilio mewnol yn fras yn bedwar categori:

(a) **Archwiliadau Rheoleidd-dra,** - sydd wedi eu cynllunio i sicrhau:-

- fod yr holl incwm sy'n ddyledus i ATAGC yn cael ei gasglu, ei dderbyn, ei ddiogelu, ei fancio a'i gofnodi'n gywir.
- fod yr holl daliadau'n cael eu hawdurdodi'n gywir, o fewn y gyllideb ac yn unol â Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol ATAGC.
- fod yr holl staff wedi cael eu penodi'n gywir, ac yn cael eu talu yn unol â thelerau ac amodau eu penodiad.
- y ceir gwerth am arian am nwyddau a gwasanaethau a brynir.
- fod eiddo ac asedau eraill yn cael eu cofnodi a'u diogelu'n gywir.

(b) **Archwiliadau o Systemau,** - wedi eu cynllunio i sicrhau bod yr holl systemau a gweithdrefnau sydd ar waith yn cynnwys rheolaethau digonol o'u mewn, a hynny er mwyn atal twyll ariannol neu anghysondebau arall, e.e. dylai o leiaf dau o bobl fod yn ymwneud â phob trafodyn.

(c) **Archwiliad o Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu.** Defnyddir hyn i brofi cyfanrwydd y systemau cyfrifiadurol, a hefyd, trwy ymholi systemau cyfrifiadurol fel cymorth i ganfod twyll ariannol ac anghysondebau.

(d) **Archwiliad o Gytundebau** sy'n cynnwys arfarniad ariannol o ddarpar-gontractwyr, ymchwiliad i'r rheolaethau sydd ar waith er mwyn sicrhau cydymffurfiad â'r Rheolau Sefydlog Cytundebau, ac ymchwiliad i sampl o'r cytundebau cyfredol a'r rhai a gwblhawyd, gan gynnwys gwirio'r cyfrifon terfynol.

9 Caiff adroddiad ei lunio yn dilyn pob archwiliad mewnol, a bydd yn:-

- datgan diben, cwmpas, darganfyddiadau a chasgliadau'r archwiliad.
- gwneud argymhellion er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw wendidau a nodir.
- cynnwys cynllun gweithredu i fonitro a chynorthwyo wrth weithredu'r argymhellion.
- darparu camau dilynol i'w cymryd o fewn cyfnod rhesymol wedi cyhoeddi'r adroddiad terfynol.

## ADOLYGIAD O WEITHGARWCH 2014/15

10 Yn ystod 2014/15, darparwyd 50 o ddiwrnodau archwilio fel y nodwyd yn y cynllun archwilio statudol. Cafodd yr holl waith a gynlluniwyd ar gyfer 2014/15 ei gynnal, heblaw am yr archwiliad o Hyfforddi a Datblygu Staff, y cynhaliwyd archwiliad o Orsaf Dân Gymunedol y Rhyl yn ei le. Cytunwyd ar y newid i'r cynllun gyda'r Dirprwy Brif Swyddog Tân o ganlyniad i oedi wrth weithredu'r prosiect arfarnu.

11 Paratowyd pedwar adroddiad yn ystod y flwyddyn, yn ymdrin â'r canlynol :-

- **Y Gyflogres (Dechreuwyr ac Ymadawyr)** – Adolygiad o'r gweithdrefnau sy'n weithredol i reoli Dechreuwyr ac Ymadawyr ar y Gyflogres.
- **Rheoli Tanwydd –** Cynhaliwyd adolygiad o'r gweithdrefnau sy'n weithredol i reoli ail-lenwi'r fflyd gerbydau â thanwydd, monitro trafodion tanwydd, y defnydd o danwydd a thalu anfonebau.
- **Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref** – Cynhaliwyd adolygiad o weithdrefnau'r Awdurdod o ran archwiliadau diogelwch tân yn y cartref a gweithio mewn partneriaeth.
- **Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl – Cynhaliwyd adolygiad o Orsaf Dân Gymunedol y Rhyl, yn enwedig o ran rheolaeth ariannol a rheoli'r gyllideb, incwm, gwariant a rhestrau eiddo**.

12 Yn Atodiad A, ceir rhestr yn nodi barn yr archwiliad o ba mor ddigonol ac effeithiol yw'r prosesau rheolaeth fewnol, a chrynodeb o'r negeseuon allweddol o ran yr holl aseiniadau archwilio a gynhaliwyd yn ystod 2014/15. Mae canlyniad pob archwiliad a gwerthusiad o ddigonolrwydd yr amgylchedd rheolaeth fewnol yn seiliedig ar nifer yr

argymhellion a’u graddiad risg. Mae’n amlwg fod yr archwiliadau, yn gyffredinol, wedi cael eu hasesu fel rhai’n darparu lefelau cadarnhaol o sicrwydd bod y rheolaethau ariannol yn gweithredu’n effeithiol a bod y risgiau’n cael eu rheoli’n briodol.

13 Er mwyn mynd i’r afael â’r gwendidau a nodwyd yn ystod yr adolygiadau archwilio, gwnaed 35 o argymhellion.

14 Cafodd cynlluniau gweithredu, yn nodi’r ymateb y cytunwyd arno, eu cyhoeddi gydag adroddiadau'r archwiliadau, a daeth y rhain yn ôl gan reolwyr yr Awdurdod Tân ac Achub, ynghyd â'r camau i'w cymryd er mwyn sicrhau bod yr argymhellion yn cael eu gweithredu. Mae’r rheolwyr wedi cytuno i roi holl argymhellion yr archwiliad ar waith.

15 Er mwyn cydymffurfio â Safonau Archwilio Mewnol CIPFA ar gyfer Sector Cyhoeddus 2013 gweithredir proses dilynol ffurfiol o fewn yr Adran i gadarnhau fod yr argymhellion a wnaed yn yr adroddiadau Archwiliad Mewnol wedi eu gweithredu gan Reolwyr o fewn yr amser a gytunwyd. Cynhelir adolygiad mewnol chwe mis wedi cyhoeddi’r adroddiad terfynol. Yn Atodiad B, ceir amserlen o’r archwiliadau dilynol a wnaed yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2014 hyd at 31 Mawrth 2015. Dengys nifer yr argymhellion a dderbyniwyd ac o ganlyniad a weithredwyd gan y rheolwyr ymhob maes ac hefyd y newidiadau sydd wedi effeithio ar farn gwreiddiol yr archwiliad. Gwneir gwaith dilynol pellach yn y meysydd lle mae nifer sylweddol o argymhellion heb eu gweithredu.

16 Mae crynodeb o’r gweithgarwch archwilio wedi ei atodi yn Atodiad C, ac mae’n dangos yr hyn a gynlluniwyd i ddyrannu adnoddau archwilio o ran diwrnodau gweithio mewn adrannau a gwasanaethau, a chymharu’r gwaith gwirioneddol a wnaed yn 2014/15 gyda’r cynllun. Mae’n amlwg fod yr holl waith a gynlluniwyd ar gyfer 2014/15 wedi cael ei gynnal, heblaw am yr archwiliad o Hyfforddi a Datblygu Staff, y cynhaliwyd archwiliad o Orsaf Dân Gymunedol y Rhyl yn ei le. Roedd y cynllun wedi cael ei newid o ganlyniad i oedi wrth weithredu’r prosiect arfarnu, a chytunwyd ar hynny gyda’r Dirprwy Brif Swyddog Tân.

## BARN YR ARCHWILIAD

17 Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod 2014/15, boddhaol yw barn yr archwiliad mewnol o'r systemau rheolaeth fewnol a sefydlwyd gan y rheolwyr er mwyn rheoli'n effeithiol y risgiau a adnabuwyd.

## ASESIAD O ANGHENION A CHYNLLUN ARCHWILIO DRAFFT AR GYFER 2014/15

18 Mae'r Cynllun Archwilio Drafft ar gyfer 2015/16 ynghlwm yn Atodiad D. Diben y cynllun archwilio blynyddol yw:-

- sefydlu blaenoriaethau archwilio ar y cyd â Rheolwyr yr Awdurdod Tân ac Achub, yn seiliedig ar ddull sy'n seiliedig ar risg i bennu anghenion archwilio'r Awdurdod ar ddechrau pob blwyddyn
- pennu'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r dyletswyddau angenrheidiol o ran archwilio
- ffurfioli tasgau archwilio
- adolygu'r gwaith archwilio a wnaed yn y flwyddyn flaenorol

19 Fel arweiniad yn unig y bwriedir y cynllun archwilio. Gallai newidiadau mewn amgylchiadau, neu ddigwyddiadau eraill na ragwelir, arwain at wyriadau i'r cynllun. Lluniwyd y cynllun ar gyfer 2015/16 yn dilyn ymgynghoriad gyda Rheolwyr yr Awdurdod Tân ac Achub. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys amser i olrhain argymhellion o archwiliadau blaenorol.

20 Mae'r Asesiad o Anghenion Archwilio Mewnol ynghlwm yn Atodiad E. Mae'r Asesiad, sy'n ymgorffori dadansoddiad risg, wedi ei gynllunio i ymdrin â phob agwedd archwiliadwy o weithgarwch ATAGC a chaiff ei ddefnyddio, mewn ymgynghoriad â'r rheolwyr, i hwyluso dull yn seiliedig ar risg i bennu anghenion archwilio'r Awdurdod ar ddechrau pob blwyddyn.

## ARGYMHELLIAD

21 Gofynnir i'r Aelodau:

(i) ystyried a nodi'r crynodeb o'r gweithgarwch Archwilio Mewnol 2014/15;

(ii) gymeradwyo'r Asesiad o Anghenion a'r Cynllun Archwilio Mewnol Drafft ar gyfer 2015/16.

**ATODIAD A**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**Adran Archwilio Mewnol – Crynodeb Blynyddol o Argymhellion a Barnau Archwilio 2014/15**

| | Ardal Archwilio | Cynnwys yr Archwiliad | Hanfodol | Mawr | Cymedrol | Bach | Cyfanswm | Cytunwyd gan Reolwyr | Barn Archwilio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | **Y Gyflogres – Dechreuwyr ac Ymadawyr** | Cadarnhawyd bod y gweithdrefnau Adnoddau Dynol yn gweithredu'n effeithiol ac yn gyson ar y cyfan, gyda'r staff yn cael eu dethol a'u recriwtio mewn proses agored, teg a thryloyw, gan ddarparu cyfle cyfartal a sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu penodi'n amserol. Hefyd, mae Adain y Gyflogres yng Nghonwy yn sicrhau bod gweithwyr newydd yn cael eu talu'n gywir yn unol â'u contract, ac o ran ymadawyr, bod y cyflog yn dod i ben ar ddyddiad olaf eu gwasanaeth a'r didyniadau cywir wedi eu tynnu.<br>Fodd bynnag, mae'r archwiliad wedi canfod rhai gwendidau yn y rheolaeth fewnol a'r meysydd risg posibl. Nid oedd argymhelliad a wnaed yn 2007 ynghylch pwysigrwydd cynnal gwiriadau rheolaidd rhwng y gyflogres a systemau AD wedi cael ei weithredu'n briodol, ac mae gor-dalu cyflogau wedi tynnu sylw at faes lle gellid gwella rheolaeth fewnol drwy ddefnyddio e-bost diogel i gyflwyno ffurflenni dechreuwyr ac ymadawyr i'r gyflogres. Hefyd, mae'n bwysig sefydlu gweithdrefn rhwng AD a'r Gyflogres, er mwyn i'r Gyflogres lunio rhestr yn fisol o'r holl ddechreuwyr ac ymadawyr, a'i chyflwyno i AD i'w gwirio a'i hardystio er mwyn sicrhau bod hynt yr holl ddechreuwyr ac ymadawyr yn gywir.<br>Mae'r dechreuwyr yn cael llythyrau a chontractau cyflogaeth yn briodol, mae ffurflenni dechreuwyr yn cael eu cwblhau'n brydlon a'u cyflwyno i'r gyflogres, ac mae'r gwiriadau recriwtio priodol yn cael eu cynnal o ran hunaniaeth, geirda, adroddiadau meddygol ac archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Hefyd, mae Adran y Gyflogres yn cynnal y gwiriadau priodol ar y ffurflenni dechreuwyr er mwyn sicrhau bod gweithwyr newydd yn cael eu talu'n gywir yn unol â'u contract a bod unrhyw ddidyniadau'n cael eu tynnu'n gywir. Fodd bynnag, byddai cyflwyno ffurflenni dechreuwyr i Adran y Gyflogres drwy e-bost yn gwella lefel y rheolaeth fewnol a'r trywydd archwilio.<br>Mae ffurflenni ymadawyr, wedi eu hawdurdodi'n gywir, yn cael eu llenwi ymhob achos o weithiwr yn ymadael â'i swydd, a chadarnhawyd bod gweithdrefnau yn eu lle i sicrhau bod cyflog yn dod i ben ar ddiwrnod olaf y gwasanaeth, gyda'r didyniadau cywir wedi eu tynnu. Fodd bynnag, mae gordalu cyflogau wedi canfod gwendidau yn y rheolaeth fewnol. Nid yw ffurflenni ymadawyr yn cael eu hanfon ar e-bost, ond yn hytrach yn cael eu postio i'r Gyflogres yng Nghonwy, ac nid oes gwiriadau misol i sicrhau bod pob ymadawr wedi cael ei dynnu o System y Gyflogres. | **0** | **0** | **7** | **0** | **7** | **7** | **Boddhaol** |

ATODIAD A

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU
## Adran Archwilio Mewnol – Crynodeb Blynyddol o Argymhellion a Barnau Archwilio 2014/15

| | Ardal Archwilio | Cynnwys yr Archwiliad | Hanfodol | Mawr | Cyme-drol | Bach | Cyfan-swm | Cytunwyd gan Reolwyr | Barn Archwilio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2 | Rheoli Tanwydd | Nid oes llawlyfr o weithdrefnau'r swyddfa wedi cael ei sefydlu i ddiffinio'r gweithdrefnau i'w gweithredu ac i esbonio'n glir beth yw dyletswyddau dydd-i-ddydd a chyfrifoldebau'r swyddogion o ran rheoli a monitro'r defnydd o danwydd. Dylai'r gweithdrefnau gynnwys mynd ati'n rheolaidd i ddefnyddio adroddiadau ar y defnydd o danwydd ac adroddiadau eithrio er mwyn monitro'r defnydd o danwydd.<br><br>Mae'r Swyddog Sicrwydd Ansawdd ac Archwilio yn cadw cofrestr gywir a chyfoes o holl gardiau tanwydd Arval y Gwasanaeth, sy'n cynnwys grŵp y cardiau, rhif cofrestru'r cerbyd neu'r gyrrwr dynodedig, rhif y cerbyd a dyddiad darfod y cerdyn. Mae'r cardiau tanwydd yn cael eu rheoli'n dda, ac mae'r holl gardiau'n cael eu llofnodi pan fydd y swyddog cyfrifol yn eu derbyn.<br><br>Yn gyffredinol, mae'r Swyddog Sicrwydd Ansawdd ac Archwilio yn mynd ati'n effeithiol i fonitro'r achosion o ail-lenwi â thanwydd a'r defnydd o danwydd yn y fflyd gerbydau, ac mae'n cynnal lefel foddhaol o reolaeth fewnol dros drafodion tanwydd drwy ddefnyddio data ar hap o System Reoli'r Fflyd, sef *Fleetwave*, er mwyn canfod unrhyw eithriadau neu drafodion amheus. Fodd bynnag, mae Modiwl Tanwydd *Fleetwave* wrthi'n cael ei ddatblygu ac nid yw'n cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial i ddarparu adroddiadau ynghylch y defnydd o danwydd ac adroddiadau eithrio tanwydd eraill. Byddai hynny'n gymorth i ganfod trafodion amheus posibl ac yn canfod cerbydau sy'n defnyddio lefel eithriadol isel neu uchel, er mwyn craffu ymhellach arnynt.<br><br>Mae anfonebau tanwydd Arval Allstar yn cael eu talu'n brydlon ac yn gywir gan yr Adran Gyllid, ac mae'r holl daliadau'n cael eu gwirio, eu codio a'u hawdurdodi'n briodol. Mae'r anfonebau TAW cyfunol yn cael eu cymeradwyo gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyfer cofnodion treth felly nid oes angen cadw na phrosesu derbynebau tanwydd unigol, ac mae rheolaethau gwirio electronig yn darparu lefel o sicrwydd ynghylch uniondeb a chywirdeb yr anfonebau. Fodd bynnag, mae'r weithdrefn bresennol ar gyfer trosglwyddo logiau tanwydd *Trans3* i'r Adran Gyllid yn cael ei ystyried yn faich gweinyddol diangen nad yw'n gwella lefel y rheolaeth fewnol. | 0 | 0 | 5 | 2 | 7 | 7 | Boddhaol |

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU
## Adran Archwilio Mewnol – Crynodeb Blynyddol o Argymhellion a Barnau Archwilio 2014/15

| | Ardal Archwilio | Cynnwys yr Archwiliad | Hanfodol | Mawr | Cymedrol | Bach | Cyfanswm | Cytunwyd gan Reolwyr | Barn Archwilio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3 | **Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref** | Nodwyd bod 26,621 o archwiliadau wedi cael eu cynnal yn 2013/14, sef cynnydd o 20% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r perfformiad mewn perthynas â nifer yr archwiliadau sy'n cael eu cynnal, ac yn enwedig y rhai i oedolion 'bregus', yn cael ei fonitro'n agos ac adroddir ynghylch hynny.<br><br>Nodwyd bod 8,528 (32%) o'r archwiliadau yn ystod 2013/14 yn rhai a oedd yn dilyn atgyfeiriad gan asiantaeth sy'n bartner inni, a chaiff y perfformiad ei fonitro o ran cyrraedd yr aelodau sydd fwyaf 'bregus' yn y gymuned. Mae'r Adran Diogelwch Cymunedol yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, cymdeithasau tai, y bwrdd iechyd lleol ac asiantaethau'r sector gwirfoddol i ganfod a chyrraedd yr aelodau mwyaf bregus yn y gymuned.<br><br>Fodd bynnag, canfuwyd bod nifer o Femoranda Cyd-dealltwriaeth, a sefydlwyd yn 2008/09, e.e. gyda Heddlu Gogledd Cymru, wedi dod i ben a heb gael eu hadnewyddu eto oherwydd penderfynwyd bod angen datblygu'r Memoranda i gydymffurfio â Chytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI). Hefyd, nid oes DDA wedi cael ei sefydlu gydag asiantaethau'r sector gwirfoddol sy'n atgyfeirio pobl fregus. Mae hefyd yn bwysig cynnal gwiriadau i sicrhau bod yr holl atgyfeiriadau a wneir gan asiantaethau drwy e-bost yn cael eu hanfon yn ddiogel gan ddefnyddio meddalwedd e-bost diogel Egress. Hefyd, canfuwyd nad oedd 30% o'r archwiliadau a oedd yn rhai 'Blaenoriaeth Uchel' wedi cael eu cynnal o fewn y targed o 28 diwrnod.<br><br>Fe wnaeth asiantaethau sy'n bartneriaid inni gynnal 2,396 o archwiliadau yn ystod 2013/14, sef y nifer fwyaf a gynhaliwyd mewn un flwyddyn ers i'r prosiect gychwyn yn 2009, a chynnydd o 23% o'i gymharu â 2012/13. Cadarnhawyd bod Cytundebau Lefel Gwasanaeth yn eu lle gyda'r 16 o asiantaethau sydd â chontract i gynnal archwiliadau, mae pecyn hyfforddi cynhwysfawr yn ei le, cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda'r asiantaethau i adolygu cynnydd, mae rhaglen sicrhau ansawdd yn weithredol, ac mae adroddiad cynnydd blynyddol wedi cael ei gwblhau. | **0** | **0** | **7** | **3** | **10** | **10** | Boddhaol |

ATODIAD A

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**Adran Archwilio Mewnol – Crynodeb Blynyddol o Argymhellion a Barnau Archwilio 2014/15**

| | Ardal Archwilio | Cynnwys yr Archwiliad | Hanfodol | Mawr | Cyme-drol | Bach | Cyfan-swm | Cytunwyd gan Reolwyr | Barn Archwilio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref (parhad)** | Fodd bynnag, canfuwyd bod y Protocol Rhannu Gwybodaeth Bersonol (PISP) a oedd yn eu lle gyda holl asiantaethau'r trydydd sector, wedi dod i ben ar 31 Mawrth 2014; ni chafodd y protocolau eu hadnewyddu ar y pryd oherwydd penderfynwyd bod angen datblygu'r protocolau i gydymffurfio â Chytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI), ac mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo. Dylai'r gwiriadau sicrhau ansawdd gynnwys cysgodi staff asiantaethau a chadw ffurflenni adolygu yn fwy cyson mewn ffolder ar y gyriant a rennir.<br>Mae'n amlwg nad yw'r cofnodion ariannol sy'n cael eu cadw i gofnodi taliadau i asiantaethau ers 2008/09 yn gwbl ddibynadwy na chywir, ac mae hyn yn effeithio ar dargedau'r asiantaethau ar gyfer yr archwiliadau sy'n weddill. Hefyd, pan fo asiantaethau wedi cael eu talu am archwiliadau ac mae'n ymddangos nad ydynt mewn sefyllfa ymarferol i'w cynnal, e.e. Cymorth i Ddioddefwyr, dylid ystyried terfynu'r contractau ac ad-dalu'r cyllid sy'n weddill i GTAGC. | | | | | | | |
| **4** | **Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl** | Cadarnhawyd bod llawlyfr gweithdrefnau ar gyfer yr Orsaf wedi cael ei baratoi ac mae ar gael i'r staff, mae gan yr holl staff ddisgrifiadau manwl o'u swyddi, mae diogelwch cyffredinol yr Orsaf yn briodol ac mae asesiadau risgiau tân a'r safleoedd wedi cael eu sefydlu ac maent yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Fodd bynnag, canfuwyd nad oes gan yr Orsaf gynllun busnes gweithredol yn ei le ac nid yw'n cynhyrchu Adroddiad Blynyddol i ddarparu adroddiad cynnydd ysgrifenedig a chynllun datblygu ar gyfer y flwyddyn i ddod.<br><br>Canfuwyd nad oes cyllideb â therfyn arian parod wedi ei sefydlu ar gyfer Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl; er bod yr adroddiadau Perfformiad Ariannol i'r Awdurdod Tân yn 2011/12 a 2012/13 yn nodi bod y cyfrif masnachu wedi ei gyllidebu i gael ei mantoli, nid yw hyn wedi ei nodi mewn cynllun busnes neu mewn cyllideb â therfyn arian parod a sefydlir ac a gymeradwyir ar ddechrau pob blwyddyn ariannol. Hefyd, nid yw'r swyddogion cyfrifol, sef Pennaeth Diogelwch Cymunedol a Chydlynydd Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl, yn cael adroddiadau yn ystod y flwyddyn o'r gwir incwm a gwariant er mwyn gallu rheoli perfformiad ariannol yr Orsaf yn effeithiol ac yn ddarbodus. Fodd bynnag, mae'n amlwg fod Cydlynydd yr Orsaf yn arfer disgresiwn wrth reoli gwariant yn gyfrifol ac yn ddarbodus. | **0** | **0** | **7** | **4** | **11** | **11** | **Boddhaol** |

**ATODIAD A**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**Adran Archwilio Mewnol – Crynodeb Blynyddol o Argymhellion a Barnau Archwilio 2014/15**

| | Ardal Archwilio | Cynnwys yr Archwiliad | Hanfodol | Mawr | Cymedrol | Bach | Cyfanswm | Cytunwyd gan Reolwyr | Barn Archwilio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl (parhad)** | Mae'n amlwg fod ail daliadau am logi ystafelloedd mewnol wedi cael eu defnyddio yn ystod tair blynedd gyntaf gweithrediad yr Orsaf i leihau diffyg y cyfrif masnachu. Fodd bynnag, yn y 3 blynedd ddiwethaf, oherwydd bod y ddiffyg yn lleihau, nid yw'r ail daliadau wedi cael eu rhoi ar y refeniw. Mae'r driniaeth anghyson hon o ail daliadau am logi ystafelloedd mewnol yn golygu nad yw'r Awdurdod yn cael data ystyrlon er mwyn cymharu a bod modd monitro perfformiad ariannol yr Orsaf yn effeithiol.<br>Canfuwyd nad yw ail daliadau am logi ystafelloedd yr Orsaf wedi cael eu hadolygu a'u cymeradwyo yn ysgrifenedig gan y DBST bob blwyddyn. Nid yw hyn yn cydymffurfio â Rheoliadau Ariannol 5.25 a 5.26.<br><br>Cadarnhawyd bod anfonebau'n cael eu codi'n brydlon ac yn gywir ar gyfer llogi ystafelloedd; mae'r cofnodion llogi ystafelloedd o safon dda ac mae'n bosibl eu cysylltu â'r rhif cysylltiedig ar yr anfoneb ac mae'r gweithdrefnau adfer dyledion yn gweithredu'n effeithiol er mwyn sicrhau bod yr holl ddyledion sy'n weddill yn cael eu talu. Fodd bynnag, canfuwyd bod anfoneb heb gael ei chodi am archeb floc i logi 6 rhwng Tachwedd ac Ionawr 2015, ac nid oes Ffurflen Archeb na chopi wedi ei lofnodi o'r telerau a'r amodau safonol am logi, ar gyfer y rhan fwyaf o archebion i logi ystafelloedd.<br><br>Mae'r Orsaf yn cadw rhestr o'r holl ddodrefn a chyfarpar, ac mae archwiliadau o'r rhestr eiddo yn cael eu cynnal yn flynyddol er mwyn sicrhau bod yr eitemau materol yn cyfateb i'r eitemau ar y rhestr. Fodd bynnag, canfuwyd achosion o ganfod eitemau wedi eu cofnodi yn ystod archwiliadau blynyddol yn rhai heb fod ar y safle mwyach ond y rhestr heb gael ei chefnogi'n briodol gyda'r rheswm pam nad yw'r eitemau yn bresennol mwyach, h.y. ar goll, wedi eu dwyn neu wedi cael gwared arnynt; a swyddog awdurdodedig wedi ardystio hynny'n gywir. | | | | | | | |
| | | | | | | | | **Uchel** | **0** |
| | | | | | | | | **Boddhaol** | **4** |
| | | | | | | | | **Cyfyngedig** | **0** |
| | | | | | | | | **Dim Sicrwydd** | **0** |

**ATODIAD B**

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU
## Amserlen yr Archwiliadau Dilynol 2014/15

| | Disgrifiad | Cyf Ffeil | Archwilydd | Dyddiad Archwilio | Dyddiad dilynol dyledus | Dyddiad dilynol | Nifer yr Argym-hellion | Argym-hellion sy'n ddyledus | Barn archwilio diwygiedig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | **Incwm 2013/14** | VF0 230 | KVW | Hydref 13 | Hydref 14 | Ionawr 15 | 2 | **0** | **Uchel** |
| **2** | **Llywodraethu Corfforaethol** | VF0 190 | KVW | Mai 14 | Mawrth 15 | Ebrill 15 | 11 | **Camau Dilynol** | **c/f to 2015/16** |
| | | | | | | | | | |

ATODIAD C

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

## CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY

### Crynodeb o Weithgaredd Archwilio Mewnol 2014/15

| | Adran/Gwasanaeth | Dyddiau arfaethedig 2014/15 | Dyddiau gwirioneddol 2014/15 |
|---|---|---|---|
| 1 | Y Gyflogres – Dechreuwyr ac Ymadawyr | 8 | 9.6 |
| 2 | Rheoli Tanwydd | 11 | 12.4 |
| 3 | Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref | 10 | 13.2 |
| 4 | Hyfforddi a Datblygu | 10 | 0 |
| 5 | Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl | 0 | 8.8 |
| 6 | Camau archwilio dilynol – Incwm 2013/14 a Llywodraethu Corfforaethol (cario drosodd i 2015/16) | 4 | 0.4 |
| 7 | Cynllunio ac Adrodd yn ATAGC (gan gynnwys Datganiad o Sicrwydd Blynyddol ac Asesiad o Anghenion) | 5 | 5.6 |
| 8 | Cronfa wrth gefn | 2 | 0 |
| | **CYFANSWM DYDDIAU** | **50** | **50** |

| | |
|---|---|
| **Dyddiau a ddyrannwyd 2014/15** | **50** |
| **Dyddiau Gwirioneddol 2014/15** | **50** |
| **Cyfanswm Dyddiau cario 'mlaen i 2015/16** | **0** |

**ATODIAD D**

## Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
## Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol Drafft 2014/15

| Cyf Asesiad Anghenion | Adolygiad Archwiliad | Sylwadau | Dyddiau | Amseru arfaethedig |
|---|---|---|---|---|
| **Maes Risg – Rheoli Pobl** | | | | |
| **12** | Absenoldeb Salwch | Adolygu'r polisi a'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin ag absenoldeb salwch, gan gynnwys cydymffurfio â'r polisi, adrodd a chofnodi absenoldeb a gwybodaeth am berfformiad. | **10** | **Ionawr 16** |
| **Maes Risg – Risgiau'n gysylltiedig ag Arian a Thwyll** | | | | |
| **17** | Y Gyflogres – Newidiadau i Gyflogau | Adolygu'r rheolaethau mewnol sy'n weithredol ar gyfer newidiadau i gyflog a lwfansau. | **10** | **Medi 15** |
| **19** | Pensiynau – Ansawdd Data | Sicrhau bod gan y Gwasanaeth bolisïau a phrosesau ar gyfer sicrhau bod data'n cael eu monitro'n barhaus i sicrhau eu bod yn gywir a chyflawn. Mae hyn yn ymwneud â gwybodaeth a anfonir gan Adnoddau Dynol i'r Gyflogres a hefyd o'r Gyflogres i'r Gweinyddwyr Pensiynau. | **8** | **Rhagfyr 15** |
| **27** | Y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) | Mae'r Fenter yn ymarferiad cynhwysfawr a thrylwyr i 'baru data', ac yn cael ei threfnu gan Swyddfa'r Cabinet mewn partneriaeth â Swyddfa Archwilio Cymru. | **5** | **Gorffennaf 15** |
| **Gwaith Archwilio Arall** | | | | |
| **-** | Cynllunio Archwilio, Adroddiad Blynyddol a Rheoli | Darpariaeth am amser sydd ei angen ar elfen reoli'r cytundeb. | **5** | **Ar fynd** |
| **-** | Dilyn Argymhellion blaenorol | Dilyn argymhellion wnaed yn 2014/15 sydd heb eu cynnwys yn y rhaglen uchod:<br>Llywodraethu Corfforaethol (11)<br>Y Gyflogres – Dechreuwyr ac Ymadawyr (7)<br>Rheoli Tanwydd (7)<br>Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref (10)<br>Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl (11) | **10** | **Ar fynd** |
| **-** | Cronfa wrth Gefn | Ar gyfer gwaith heb ei gynllunio a gafodd ei adnabod yn ystod y flwyddyn a chysylltu/ cyngor yn ôl y gofyn. | **2** | |
| | | **Cyfanswm y dyddiau sydd eu hangen i Waith Archwilio** | **50** | |
| | **Dyddiau a Ddyrannwyd 2015/16** | | **50** | |
| | **Dyddiau a ddygwyd ymlaen o 2014/15** | | **0** | |
| | **Cyfanswm dyddiau sydd ar gael 2015/16** | | **50** | |

**ATODIAD E**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**Asesiad o Anghenion Archwilio Mewnol 2015/16**

| | Y Brif System a'r Is-system | Meysydd Posib i'w Harchwilio | Asesiad Risg | | Dyddiau 2015/16 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Risg – Rheoli a Llywodraethu Strategol** | | | | | | |
| 1 | Llywodraethu Corfforaethol | Y Trefniadau ar gyfer Cydymffurfio'n Gyfreithiol;<br>Llunio Polisïau a Phenderfyniadau;<br>Cynllun Dirprwyo;<br>Codau Ymddygiad – Y Swyddogion;<br>Codau Ymddygiad – Yr Aelodau;<br>Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth;<br>Cyflogau'r Prif Swyddogion;<br>Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol;<br>Gwrth-dwyll a Chwythu'r Chwiban;<br>Polisi Amgylcheddol. | A | | | Mae'r Awdurdod wedi sefydlu Cod Lleol ar gyfer Llywodraethu, a dyma a ddefnyddir fel y safon ar gyfer mesur perfformiad yr Awdurdod mewn hunanasesiad a gynhelir ar ddiwedd pob blwyddyn er mwyn llunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Cadarnhaodd KPMG fod yr Awdurdod yn gwybod am y ddeddfwriaeth newydd a bod prosesau a gweithdrefnau priodol yn eu lle.<br>**Yr Archwiliad o Lywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd yn 2013/14 – Sicrwydd Uchel** |
| 2 | Cynllunio Gwasanaethau | Cynllunio Corfforaethol;<br>Cynllun Integredig Rheoli Risg;<br>Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau;<br>Cynlluniau Uned Gwasanaeth;<br>Cynllun Gwella Asesiad Perfformiad Cynhwysfawr;<br>Moderneiddio;<br>Ymgynghori;<br>Asesu Risg;<br>Cael Adnoddau a Chymeradwyaeth Ariannol;<br>Uned Cydlynu Gwelliannau | B | | | **Gwaith Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru ar Berfformiad 2014/15** – Y gwaith i ganolbwyntio'n bennaf ar waith ansawdd data. |
| 3 | Rheoli Perfformiad | Rolau a Chyfrifoldebau;<br>Gosod targedau;<br>Casglu Data;<br>Rheoli Ansawdd Data;<br>Adrodd;<br>Defnyddio Gwybodaeth Rheoli i gefnogi Gwelliannau i'r Gwasanaeth | A | | | **Gwaith Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru ar Berfformiad 2014/15** – Y gwaith i ganolbwyntio'n bennaf ar waith ansawdd data. |

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**Asesiad o Anghenion Archwilio Mewnol 2015/16**

| | Y Brif System a'r Is-system | Meysydd Posib i'w Harchwilio | Asesiad Risg | | Dyddiau 2015/16 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4 | Rheoli Risg, Cynllunio rhag Argyfyngau, a Dilyniant Busnes | Polisi a Fframwaith;<br>Rolau a Chyfrifoldebau;<br>Hyfforddiant:<br>Cofrestr Risg Corfforaethol;<br>Integreiddio gyda'r Prosesau Rheoli;<br>Peirianweithiau Monitro a Sicrwydd;<br>Adrodd;<br>Cynllunio rhag Argyfyngau;<br>Asesu Risg;<br>Parhad Busnes;<br>Chwilio ac Achub mewn Trefi;<br>Cydymffurfio â'r Ddeddf Argyfyngau Sifil 2004;<br>Gweithio gydag Asiantaethau Partneriaeth a Busnesau Lleol;<br>Fforymau Cydnerth;<br>Cyfleusterau Cynadleddau Symudol; | A | | | **Gwaith Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru ar Berfformiad 2014/15**<br><br>Roedd yr Archwiliad o Lywodraethu Corfforaethol, a gynhaliwyd yn 2013/14, yn cynnwys asesiad ac argymhelliad mewn perthynas â rheoli risg a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol – **Sicrwydd Uchel.** |
| 5 | Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth;<br>Polisïau, Arferion a Gweithdrefnau;<br>Cyfrifoldebau;<br>Ymwybyddiaeth a Hyfforddiant;<br>Rheoli Perfformiad. | C | | | |
| **Maes Risg – Darparu Gwasanaeth yr Ochr Weithredol** | | | | | | |
| 6 | Gweithrediadau'r Ystafell Reoli<br><br>Ymateb i Ddigwyddiadau a'u Rheoli | Cydymffurfio â Lliniaru Risg Allweddol;<br>Gweithdrefnau Anfon Allan;<br>Blaenoriaethu Ymateb i Ddigwyddiadau;<br>Monitro a Mesur Perfformiad;<br>Staffio ac Adnoddau;<br>Hyfforddiant<br>Y System Rheoli Digwyddiadau | C | | | |

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**Asesiad o Anghenion Archwilio Mewnol 2015/16**

| | **Y Brif System a'r Is-system** | **Meysydd Posib i'w Harchwilio** | **Asesiad Risg** | | **Dyddiau 2015/16** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 7 | Gweithdrefnau Galwadau Ffug | Polisi a Gweithdrefn;<br>Cofnodi a Monitro;<br>Addysg;<br>Cyfathrebu. | C | | | |
| 8 | Diogelwch Tân Cymunedol a'r Tasglu Llosgi Bwriadol | Cyfathrebu;<br>Addysg;<br>Cael adnoddau;<br>Proffilio Risg;<br>Gweithio gyda Busnesau, Awdurdodau Addysg Lleol, Ymddiriedolaeth Plant a Phobl Ifanc, Tîm Troseddwyr Ifanc, Gwasanaethau Tân ac Achub eraill;<br>Prosiect systemau taenellu;<br>Larymau mwg;<br>Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref;<br>Digwyddiadau Diogelwch Cymunedol;<br>Mynd at Gerbydau | C | | 10 | Adolygwyd gwaith partneriaeth yr adran Diogelwch Tân Cymunedol yn ystod 2010/11. Barn yr archwiliad oedd Digonol.<br>Cynhaliwyd archwiliad dilynol yng Ngorffennaf 2012 – barn archwilio ddiwygiedig - Boddhaol.<br><br>**Yr archwiliad o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref, a gynhaliwyd yn 2014/15 – Barn yr Archwiliad oedd Boddhaol**<br><br>**Yr archwiliad o Orsaf Dân Gymunedol y Rhyl, a gynhaliwyd yn 2014/15 – Barn yr Archwiliad oedd Boddhaol** |
| 9 | Archwiliadau ac Ymchwiliadau | Cydymffurfio â Pholisïau;<br>Rhaglen Arolygiadau;<br>Asesiadau ar-lein;<br>Cydymffurfio â rheolau adeiladu;<br>Dyrannu trwyddedau/tystysgrifau;<br>Incwm o archwiliadau a thrwyddedau | C | | | Incwm o archwiliadau a thrwyddedau yn rhan o'r archwiliad o Incwm a gynhaliwyd yn 2013/14. |
| 10 | Gweithio mewn Partneriaeth | Trefn Lywodraethu Partneriaeth<br>Asesu Risg;<br>Lleihau Trosedd ac Anhrefn;<br>Partneriaethau Strategol Lleol;<br>Cytundebau Ardal Leol;<br>Awdurdodau Addysg Lleol ac eraill. | B | | | Cynhaliwyd adolygiad yn 2010/11 o Weithio mewn Partneriaeth yr adran Diogelwch Tân Cymunedol, gan werthuso'r trefniadau llywodraethu a digonolrwydd y rheolaethau mewnol a ymgorfforwyd ymhob system, gyda'r bwriad o adnabod unrhyw wendidau o ran rheoli, a meysydd risg posib.<br>**Barn yr Archwiliad oedd Digonol.**<br>Cynhaliwyd archwiliad dilynol yng Ngorffennaf 2012 – barn archwilio ddiwygiedig - Boddhaol.<br>**Yr archwiliad o Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref, a gynhaliwyd yn 2014/15 – Barn yr Archwiliad oedd Boddhaol** |

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**Asesiad o Anghenion Archwilio Mewnol 2015/16**

| | Y Brif System a'r Is-system | Meysydd Posib i'w Harchwilio | Asesiad Risg | | Dyddiau 2015/16 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Risg – Rheoli Pobl** | | | | | | |
| 11 | Iechyd a Diogelwch | Cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth;<br>Polisïau, Arferion a Gweithdrefnau;<br>Cyfrifoldebau;<br>Ymwybyddiaeth a Hyfforddiant;<br>Rheoli Perfformiad;<br>Monitro ac Adrodd ynghylch Digwyddiadau;<br>Yswiriant (Atebolrwydd Cyhoeddus a Chyflogwyr) | B | | | |
| 12 | Rheoli Presenoldeb (staff gweithredol a chefnogi) | Cydymffurfio â Pholisi;<br>Cofnodi, ac adrodd ynghylch absenoldeb;<br>Gwybodaeth am Berfformiad | C | | | **Cynhaliwyd Ymchwiliad Arbennig yn ystod 2011/12 o Amser i ffwrdd *in Lieu* a materion AD eraill.**<br>Archwiliad o Absenoldeb Salwch wedi ei drefnu ar gyfer 2015/16. |
| 13 | Hyfforddi a Datblygu Staff (staff gweithredol a chefnogi) | Gweithredu'r System Integredig Datblygiad Personol (IPDS);<br>Asesu Sgiliau;<br>Portffolios Datblygu;<br>Adolygiadau o Ddatblygiad Personol;<br>Arfarniad o Berfformiad;<br>Cyfleusterau Hyfforddi;<br>Cynlluniau Hyfforddi ar y cyd;<br>Cynllunio ar gyfer Olyniaeth;<br>Datblygu Arweinyddiaeth (Gwella'r Gwasanaeth);<br>Hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar Werth. | C | | 10 | Gwaith perfformiad Swyddfa Archwilio Cymru wedi ei gynnal yn 2011/12 – Astudiaeth Thematig – cynllunio AD a'r gweithlu. |
| 14 | Recriwtio a Dethol | Cydymffurfio â Pholisïau a Gweithdrefnau Recriwtio;<br>Cydraddoldeb a chynhwysiant;<br>Gwiriadau cyn cyflogaeth;<br>Rheoli Perfformiad. | C | | | Gwiriadau cyn cyflogi, e.e. geirda, gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn rhan o'r **archwiliad o Ddechreuwyr ac Ymadawyr 2014/15 – Barn yr Archwiliad oedd Boddhaol.** |

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**Asesiad o Anghenion Archwilio Mewnol 2015/16**

| | Y Brif System a'r Is-system | Meysydd Posib i'w Harchwilio | Asesiad Risg | | Dyddiau 2015/16 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Risg – Rheoli Prosiectau** | | | | | | |
| 15 | Rheoli Prosiectau | Uned Arbennig ar gyfer Prosiectau;<br>Rolau a Chyfrifoldebau;<br>Blaenoriaethu Prosiectau;<br>Asesu Risg;<br>Cydymffurfio â Prince 2;<br>Hyfforddiant mewn Rheoli Prosiectau;<br>Monitro a Chyflwyno;<br>Cyllido | B | | | Cynigiodd Pennaeth Adran Rheoli Cyfleusterau a Logisteg Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru y dylai Cyfrifon Terfynol Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl gael eu hasesu i weld a oes anghysonderau. **Fel rhan o gynllun archwilio 2011/12, fe wnaeth Gwasanaeth Archwilio Mewnol Conwy adolygiad o'r contract hwn. Barn yr Archwiliad – Boddhaol** |
| **Maes Risg – Risgiau Ariannol a Thwyll** | | | | | | |
| 16 | Cynllunio Ariannol a Rheoli'r Gyllideb | Trefniadau Cyllido<br>Dyrannu Adnoddau<br>Cynllunio Ariannol yn y Tymor Canolig<br>Gosod a chymeradwy'r gyllideb<br>Dirprwyaethau ariannol<br>Hyfforddiant i Ddeiliaid Cyllidebau<br>Monitro cyllidebau<br>Rhagweld/Adrodd Ariannol | A | | | **Amlinelliad o Archwiliad Ariannol Blynyddol gan Swyddfa Archwilio Cymru 2013/14.**<br><br>**Gwaith Archwilio Perfformiad gan Swyddfa Archwilio Cymru 2014/15** - mae'n cynnwys astudiaeth o lefelau buddsoddi mewn gwasanaethau tân ac achub dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, sef ***Cyflawni â Llai***, a **Chrynodeb o'r Sefyllfa Ariannol**, sef astudiaeth i roi crynodeb o waith lleol ar sefyllfa ariannol cynghorau ac i ddarparu darlun Cymru gyfan o gydnerthedd ariannol. |
| 17 | Y Gyflogres | Dechreuwyr, Ymadawyr, Newidiadau;<br>Rheoli Taliadau;<br>Ardystiadau;<br>Cywirdeb;<br>Monitro;<br>Adrodd. | A | | 8 | Archwiliad y Gyflogres - Newidiadau i Gyflogau 2008/09. Boddhaol oedd Barn yr Archwiliad.<br>Archwiliad y Gyflogres – CAATS 2008/09. Da oedd Barn yr Archwiliad<br>Tâl diffoddwyr tân rhan amser - Adolygwyd gweithdrefnau FIN 8 electronig yn 2011/12– Barn yr Archwiliad - Boddhaol.<br>**Archwiliad y Gyflogres – Dechreuwyr/ Ymadawyr wedi ei gynnal yn 2014/15 Barn yr Archwiliad oedd Boddhaol.** |

**ATODIAD E**

## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU
## Asesiad o Anghenion Archwilio Mewnol 2015/16

| | Y Brif System a'r Is-system | Meysydd Posib i'w Harchwilio | Asesiad Risg | | Dyddiau 2015/16 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 18 | Lwfansau Gweithwyr a'r Aelodau | Hawliadau, awdurdodi a phrosesu mewn perthynas â:<br>Theithio a Chynhaliaeth;<br>Gwobrau am Wasanaeth Hir;<br>Lwfansau Preswyl; | D | | | Adolygiad Archwiliad Mewnol o Lwfansau'r Aelodau 2005/06.<br>Barn yr archwiliad oedd Da.<br><br>Cynhwyswyd Lwfansau Gweithwyr yn yr Archwiliad o'r Gyflogres - Newidiadau i Gyflogau 2008/09. |
| 19 | Pensiynau | Hysbysu'r Awdurdod sy'n Gweinyddu;<br>Gwirio newidiadau;<br>Ffioedd heb eu Hariannu. | C | | | **Amlinelliad o Archwiliad Ariannol 2013 /14** – Cynhaliwyd adolygiad o gyfrifyddu a datgelu cynlluniau pensiwn er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â gofynion y Safonau IFRS perthnasol, ac adolygu'r rhagdybiaethau actiwaraidd i sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag ystodau rhagdybiaethau actiwaraidd KPMG. |
| 20 | Caffael a Phrynu | Strategaeth Gaffael;<br>Effeithlonrwydd a Gwerth am Arian;<br>E Gaffael;<br>Cydymffurfio â Rheoliadau Ariannol a Rheoliadau Sefydlog Cytundebau;<br>Gweithdrefnau Prynu a Thalu;<br>Gwariant ar Gardiau Credyd;<br>Gwariant ag Arian Parod. | B | | | Barn Flynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch Gwerth am Arian.<br><br>**Archwiliad o Gredydwyr wedi ei gynnal yn 2012/13 – Sicrwydd Uchel.** |
| 21 | Strategaeth Gyfalaf a Chyfrifyddu | Gosod/Cymeradwyo'r Strategaeth a'r Rhaglen;<br>Monitro;<br>Cyfalafu/ Awdurdodi Gwariant;<br>Benthyca Darbodus;<br>Cyfrifyddu a Rheoli Asedau Sefydlog;<br>Cofrestr Asedau Sefydlog;<br>Prisio/Dibrisio Asedau;<br>Yswiriant;<br>Cynlluniau Mentrau Cyllid Preifat (PFI) yn cynnwys TAW. | A | | | **Amlinelliad o Archwiliad Ariannol Blynyddol gan Swyddfa Archwilio Cymru 2013/14.** |

**ATODIAD E**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**Asesiad o Anghenion Archwilio Mewnol 2015/16**

| | Y Brif System a'r Is-system | Meysydd Posib i'w Harchwilio | Asesiad Risg | | Dyddiau 2015/16 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 22 | Rheoli'r Fflyd a Thanwydd | Caffael/Prydlesu;<br>Rheolaeth ac Unioniad Strategol;<br>Cynnal a Chadw ac Archwiliadau;<br>Materion sy'n ymwneud â Thanwydd a'r Defnydd ohono;<br>Gwaredu;<br>Yswiriant. | C | | | Adolygiad Archwiliad mewnol o Danwydd 2007/08.<br>Barn yr Archwiliad oedd Boddhaol.<br>Cynllun Rheoleiddio 2007/08 – adolygiad KPMG o Reoli Asedau'r Fflyd a Cherbydau.<br><br>**Archwiliad o Reoli Tanwydd wedi ei gynnal yn 2014/15. Barn yr Archwiliad oedd Boddhaol.** |
| 23 | Casglu a Bancio Incwm | Derbyn Taliadau;<br>Incwm Grant;<br>Incwm Praesept;<br>Gweithdrefnau Casglu a Chyfrifyddu;<br>Incwm Amrywiol;<br>Cydymffurfio â Pholisi Codi Tâl;<br>Incwm o Dystysgrifau Archwilio;<br>Sicrwydd arian a Bancio;<br>Yswiriant. | C | | 9 | Cynhaliwyd Archwiliad Mewnol o'r gweithdrefnau casglu, derbyn a bancio mewn perthynas â'r holl incwm a chynhyrchwyd gan ATAGC yn ystod 2009/10 – Barn yr archwiliad: Boddhaol.<br><br>**Archwiliad o Incwm – cyflawnwyd 2013/14 – Sicrwydd Uchel** |
| 24 | Storfeydd | Rheoli Stoc, Gwerth a Chofnodi;<br>Prynu a Derbyn;<br>Diogelwch yn y Storfeydd;<br>Diogelwch y System TG;<br>Gweithdrefnau Rhannu allan a Dychwelyd;<br>Yswiriant. | D | | | **Cyflawnwyd Archwiliad o'r Storfeydd yn 2012/13 – Barn yr Archwiliad – Sicrwydd Uchel** |
| 25 | Diogelwch yr Offer a'r Stocrestr | Lefel y Stocrestr;<br>Cofnodi ac Adolygu;<br>Marcio Offer;<br>Llogi Offer;<br>Diogelwch Lleoliadau;<br>Yswiriant | C | | | Adolygiad Archwilio Mewnol 2007/08.<br>Wedi ei gynnwys yn yr archwiliad o Orsafoedd Rhan Amser 2009/10-2013/14. |

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**Asesiad o Anghenion Archwilio Mewnol 2015/16**

| | Y Brif System a'r Is-system | Meysydd Posib i'w Harchwilio | Asesiad Risg | | Dyddiau 2015/16 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 26 | Costau Cyfleustodau a Chytundebau Gwasanaeth | Tendro a Gwerth am Arian;<br>Monitro Costau Ynni;<br>Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ariannol. | C | | | |
| 27 | Y Fenter Dwyll Genedlaethol | Lawrlwythiad y Gyflogres;<br>Lawrlwythiad y Credydwyr;<br>Ymchwilio i Allbwn yr Ymarferiad Paru Cenedlaethol, | B | | 5 | Bob 2 flynedd, paru data'r gyflogres a data credydwyr gan y Fenter Dwyll Genedlaethol.<br><br>Cynhaliwyd gwaith y Fenter Dwyll yn ystod 2011/12. Barn yr Archwiliad - Da<br><br>**Gwaith y Fenter Dwyll – cyflawnwyd 2013/14 – Sicrwydd Uchel** |
| 28 | Prif Systemau Ariannol<br>• Y Gyflogres<br>• Credydwyr<br>• Dyledwyr<br>• Rheoli'r Trysorlys<br>• System Gyfrifyddu<br>• Gwrth-dwyll | Cyfanrwydd, Cywirdeb a Dilysrwydd Trafodion;<br>Cyfrifyddu Cywir;<br>Monitro ac Adrodd;<br>Effeithlonrwydd;<br>Gwerth am Arian;<br>Dogfennu Systemau;<br>Cydymffurfio â Rheoliadau a Gweithdrefnau Ariannol | A | | | Yn dod dan yr Archwiliad o Systemau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, yn flynyddol. Adolygiad o System Credydwyr ATAGC 2008/09. Digonol oedd Barn yr Archwiliad.<br><br>**Cynhaliwyd archwiliad o gredydwyr yn 2012/13 – Sicrwydd Uchel** |
| **Maes Risg – Enw da a Hyder y Cyhoedd** | | | | | | |
| 29 | Y Weithdrefn Gwynion | Polisi, Gweithdrefn ac Arferion Da;<br>Cydymffurfio;<br>Monitro ac Adrodd;<br>Gwella Gwasanaethau;<br>Iawndaliadau. | C | | 8 | |
| 30 | Cyfathrebu Corfforaethol | Y Strategaeth Gyfathrebu;<br>Marchnata a'r Cyfryngau;<br>Cyfrifoldebau;<br>Monitro Digwyddiadau | C | | | |

**ATODIAD E**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**Asesiad o Anghenion Archwilio Mewnol 2015/16**

| | Y Brif System a'r Is-system | Meysydd Posib i'w Harchwilio | Asesiad Risg | | Dyddiau 2015/16 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Risg – Rheoli a Thechnoleg Gwybodaeth** | | | | | | |
| 31 | Strategaeth a Rheolaeth TG | Datblygu Strategaeth a Chael Adnoddau;<br>Fframwaith Polisïau a Rheolaeth;<br>Rheoli'r Rhyngrwyd ac E-bost;<br>Cyfrifoldebau;<br>Caffael a Datblygu TGCh;<br>Yswiriant. | C | | | Roedd yr archwiliad yn asesu maint y rheolaeth dros y prif risgiau yn ymwneud â chael gwybodaeth oddi ar systemau TG y sefydliad, ac yn benodol bydd yn adolygu'r meysydd canlynol ar gyfer cydymffurfio â safonau diogelu gwybodaeth ISO 27000.<br>• Rheoli mynediad defnyddwyr<br>• Rheoli mynediad i gyfrifiaduron<br>• Rheoli mynediad at gymwysiadau<br>• Mynediad a defnydd o systemau monitro<br>Rheoli mynediad at wybodaeth bersonol |
| 32 | Rheoli Rhwydweithiau | Diogelwch a Rheolaeth;<br>Diogelwch Corfforol a Rhesymegol;<br>Systemau Wrth Gefn ac Adfer wedi Trychineb;<br>Perfformiad Caledwedd, Cyfryngau, Topoleg:<br>Diogelwch a Rheolaeth:<br>Cefnogaeth i Reolwyr:<br>Meddalwedd Cyfathrebu;<br>Cysylltiadau Di-wifr | C | | | Cynhaliwyd yr archwiliad o Reoli Rhwydwaith yn 2008/09. Boddhaol oedd Barn yr Archwiliad<br><br>Archwiliad wedi ei gynnal yn 2010/11 ar Reoli Mynediad i Systemau. Barn yr Archwiliad – Boddhaol |
| 33 | Telegyfathrebu (ac eithrio'r ystafell reoli) | Diogelwch a Rheoli;<br>Diogelwch Corfforol a Rhesymegol;<br>Systemau Wrth Gefn ac Adfer wedi Trychineb. | C | | | |

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**Asesiad o Anghenion Archwilio Mewnol 2015/16**

| | Y Brif System a'r Is-system | Meysydd Posib i'w Harchwilio | Asesiad Risg | | Dyddiau 2015/16 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 34 | E Lywodraeth | Strategaeth;<br>Cael adnoddau;<br>Mentrau;<br>Perfformiad. | C | | | Cynhaliwyd Archwiliad Mewnol yn 2009/10 - nod yr archwiliad oedd pennu i ba raddau y mae rheolaeth am risgiau mewn perthynas â'r canlynol:<br>• Gweledigaeth e-lywodraeth<br>• Cydweithio, e.e. rhwng awdurdodau<br>• Gofynion y cwsmer<br>• Cyllido<br>• Atebion technegol<br>• Gallu – o ran pobl a sgiliau<br>• Prosesau busnes<br>Ffocws ar reolaethau strategol am y risgiau allweddol sy'n bygwth y weledigaeth/rhaglen e-Lywodraeth.<br><br>Barn yr archwiliad – Da |
| 35 | TG yr Ystafell Reoli | Ffonau Symudol;<br>System Radio;<br>System Galw allan;<br>Diogelwch Corfforol;<br>System wrth gefn a chynllun adfer;<br>Monitro Perfformiad. | C | | | |
| 36 | Diogelu Data / Rhyddid Gwybodaeth | Cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth;<br>Ymwybyddiaeth ymhlith y Staff;<br>Ceisiadau am Wybodaeth;<br>Monitro a Pherfformiad | C | | | Cynhaliwyd archwiliad yn ystod 2009/10 i bennu a yw gweithgarwch sy'n golygu prosesu data personol yn cyd-fynd â pholisïau a gweithdrefnau diogelu data yr Awdurdod, a ph'un a yw'r dulliau prosesu hyn yn cwrdd â gofynion y Ddeddf Diogelu Data 1998 ai peidio. Barn yr archwiliad – Boddhaol.<br><br>Archwiliad Rhyddid Gwybodaeth wedi'i gynnal yn 2010/11 i sicrhau cydymffurfiad â gofynion statudol Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.<br>**Barn yr Archwiliad – Boddhaol** |

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**Asesiad o Anghenion Archwilio Mewnol 2015/16**

| | Y Brif System a'r Is-system | Meysydd Posib i'w Harchwilio | Asesiad Risg | | Dyddiau 2015/16 | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Maes Risg – Systemau Eraill** | | | | | | |
| 37 | Gweithrediad y Ffreutur | Cytundeb a Monitro;<br>Hylendid Bwyd a Glanweithdra;<br>Hyfforddi Staff;<br>Casglu Incwm a Bancio;<br>Gweithdrefnau Archebu | C | | | |
| 38 | Cronfeydd Lles | Gweithdrefnau Ysgrifenedig;<br>Cofnodion y Cronfeydd Lles;<br>Cysoniad Banc;<br>Archwiliadau Annibynnol. | C | | | Cynhaliwyd archwiliad o'r Cronfeydd Lles yn 2008/09. Anfoddhaol oedd Barn yr Archwiliad. Cynhaliwyd archwiliad dilynol yn 2009/10 – Barn yr archwiliad – Digonol. |
| **Maes Risg – Gwaith arall yn ymwneud ag Archwilio** | | | | | | |
| | Cynllunio gwaith archwilio, Adroddiad Blynyddol a Rheolaeth | | | | 5 | |
| | Olrhain Argymhellion Blaenorol | | | | 10 | |
| | Cronfeydd wrth gefn | | | | 2 | |
| | | | **Cyfanswm cwmpas 2015/16** | | **50** | |

**Asesiadau Risg - Mae'r Asesiad o Anghenion yn dogfennu pob prosiect, ac mae'n dyrannu Graddiad Risg mewn perthynas â phob maes archwiliadwy, yn seiliedig ar lenwi matrics risg sy'n cael ei gadw ar System Cynllunio Archwiliadau a'r Amgylchedd Reoli (APACE) yr Adain Archwilio Mewnol. Yr Asesiad Risg sy'n pennu graddiad y risg ac amledd pob archwiliad wedi hynny. Lle nad yw rhyw faes wedi cael ei adolygu'n ddiweddar gan yr Adain Archwilio Mewnol na Swyddfa Archwilio Cymru, rhoddir Graddiad 'C' wrtho hyd oni fydd archwiliad wedi ei gynnal, a bod modd gwneud barn wybodus yn ei gylch. Y graddiadau risg cyfredol yw:**

- **Graddiad Risg A - Risg Uchel sy'n gofyn am Adolygiad Blynyddol**
- **Graddiad Risg B - Risg Uchel sy'n gofyn am adolygiad bob 2 flynedd**
- **Graddiad Risg C - Risg Canolig sy'n gofyn am adolygiad bob 3 blynedd**
- **Graddiad Risg D - Risg Isel sy'n gofyn am adolygiad bob 4 blynedd**